| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **9 Gorffennaf 2026** |
| **TEITL** | **Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Enwebu aelod Lleyg ar gyfer Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n dymuno enwebu un Aelod Lleyg i Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

1. **Cefndir**

1.1 Sefydlwyd is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('PLlA') ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ('y CBCG ') ym mis Rhagfyr 2025. Gofynnwyd i'r Cyngor geisio enwebu aelod lleyg o aelodaeth lleyg y Pwyllgor i wasanaethu ar PLlA y CBCG. Y rheswm am yr adroddiad hwn yw ceisio enwebiad gan y Pwyllgor.

**2. Manylion yr adroddiad**

2.1 Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd 2021 ('y Rheoliadau') yn darparu ar gyfer creu'r CBCG yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021').

2.2 . Darparodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y dylai pob prif gyngor yng Nghymru gael is Bwyllgor Archwilio. Cafodd y pwyllgorau hyn eu hailenwi'n ddiweddarach gan Ddeddf 2021 yn Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.

2.3. Mae'r Rheoliadau'n darparu bod yn rhaid i'r CBCG gael ei PLlA ei hun. Rhaid i'r PLlA gynnwys traean o'i aelodaeth yn aelodau lleyg.

2.4. Mae'r CBCG wedi penderfynu sefydlu PLlA gyda naw aelod ar y PLlA. Mae'r aelodaeth yn cynnwys chwe chynghorydd, un o bob un o'r cynghorau cyfansoddol, a thri aelod lleyg. Y cworwm ar gyfer y PLlA fydd saith. Bydd cworwm yn bodoli pan fydd 7 yn bresennol, gydag o leiaf un ohonynt yn aelod Lleyg.

2.5. Disgwylir i'r PLlA gyfarfod yn chwarterol a disgwylir i bob cyfarfod bara tua dwy awr. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir.

2.6. Mae'r PLlA wedi penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y cynghorau cyfansoddol. Gofynnwyd i bob un o'r cynghorau cyfansoddol enwebu cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail gynghorydd i weithredu fel dirprwy er mwyn gallu cyflawni cworwm pan nad yw'r prif enwebai ar gael. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi gweithredu ar hyn.

2.7. Gofynnwyd hefyd i bob un o'r cynghorau cyfansoddol a fyddai'n dymuno enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar y PLlA. Cafodd 3 aelod lleyg eu henwebu i'r Pwyllgor yn wreiddiol.

2.8 Yn ddiweddar, mae un o'r Aelodau lleyg wedi penderfynu sefyll i lawr o'r pwyllgor. Felly mae lle i un aelod lleyg arall i wasanaethu ar y pwyllgor.

2.9 Os bydd mwy o enwebiadau o'r cynghorau cyfansoddol na'r hyn sy'n ofynnol, yna bydd y CBCGC yn dewis aelodau lleyg wrth ystyried y disgrifiad rol a'r manylion person, ynghyd ag unrhyw wybodaeth cefndirol/cefnogol.

2.10 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi caniatau talu lwfans penodol i aelodau lleyg ar yr Is Bwyllgor yn yr un modd ac aelodau lleyg Pwyllgorau Llywodraethu eraill . Penderfynodd y CBCGC fabwysiadu trefn talu fesul awr.

2.11 Gweler yr atodiadau a gynhyrchwyd gan y CBCG sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol, disgrifiad rôl ar gyfer aelodau lleyg ynghyd â chylch gorchwyl ar gyfer y PLlA.

**ARGYMHELLIAD**

1. **Bod y Pwyllgor yn enwebu un Aelod Lleyg i Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd.**